

# PORTAL 2024

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 8 Gorffennaf 2024

Mae Llantarnam Grange yn chwilio am leisiau newydd ym myd celf a chrefft gyfoes i arddangos yn ein sioe flynyddol i raddedigion, Portal.

Os ydych wedi graddio oddi ar unrhyw gwrs BA neu MA (Anrh) mewn celfyddyd gymhwysol neu o brifysgol yn y DU yn 2024, yna rydych yn gymwys i ymgeisio.

## Beth yw Portal?

Mae Portal yn gyfle i bymtheg o grefftwyr, artistiaid, dylunwyr, ffotograffwyr a gwneuthurwyr sy'n graddio gymryd rhan yn yr arddangosfa flynyddol o artistiaid graddedig yn Llantarnam Grange, Cwmbrân, De Cymru.

Mae Portal hefyd yn sgwrs ehangach ynglŷn â'ch ymarfer a'ch uchelgeisiau, lle mae'r staff a gweithwyr llawrydd cynorthwyol yn gweithredu fel seinfwrdd a rhwydwaith – ac yn eich helpu i ddatblygu gyrfa iach yn y sector.

## Beth sydd ar gynnig?

Mae Portal yn gyfle i gymryd rhan mewn arddangosfa grŵp a gynhelir yn Oriel 1 yn Llantarnam Grange. Bydd yr artistiaid ddewiswyd yn cael profiad o arddangos eu gwaith i'r cyhoedd, bod yn rhan o gyhoeddiad, a datblygu cymunedau artistig newydd.

Llantarnam Grange  
Heol Dewi Sant  
St David's Road  
Cwmbrân  
Cwmbran  
NP44 1PD

# PORTAL 2024

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 8 Gorffennaf 2024

Trwy gydweithio'n agos â'n tîm, byddwch yn cael cyfle dysgu a fydd yn eich helpu i ddatblygu sgiliau ymarferol ac i ddeall sut mae gweithio yn y celfyddydau.

Bydd rhai cyfleoedd mentora mewnol ar gael gyda'n Cyfarwyddwr, ein Swyddog Arddangosfeydd, yr Uwch Swyddog Ymgysylltu neu'r Swyddog Datblygu a Marchnata.

**Bydd pob artist sy'n arddangos yn derbyn ffi o £100 am gymryd rhan.** Bydd angen i chi drefnu cludiant i ddanfoni y gwaith at yr oriel eich hunan neu gan gludwr.

Byddwn yn talu'r costau dychwelyd, ond os gallwch gasglu eich gwaith mewn person, gallwn gynnig ffi o £50 i chi.

## Cymhwysedd

- Mae'n rhaid i chi fod wedi graddio gyda BA neu MA (Anrh) yn y celfyddydau cymhwysol neu weledol o brifysgol yn y DU yn 2024.
- Byddwn yn cynnig pum lle o leiaf i artistiaid mwyafrif byd-eang, artistiaid anabl, ac/neu artistiaid sy'n siarad Cymraeg.

## Faint mae'n costio?

Ni chodir unrhyw dâl am ymgeisio i Portal nac i gymryd rhan. Byddwn yn talu o leiaf £100 i artistiaid am gymryd rhan.

# PORTAL 2024

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 8 Gorffennaf 2024

## Dyddiadau Allweddol

- Dyddiad cau: 9am dydd Llun 8 Gorffennaf 2024
- Rhaid anfon yr holl ddatganiadau artist a delweddau artist at y Swyddog Arddangosfa erbyn 17 Gorffennaf fan bellaf.
- Rhaid cyflwyno gwaith erbyn 14 Awst 2024 fan bellaf.
- Dyddiadau'r Arddangosfa: 24 Awst – 16 Tachwedd 2024
- Digwyddiad Agoriadol: 12-2pm, dydd Sadwrn 24 Awst 2024. Rydym yn bwriadu rhedeg dau weithdy datblygiad proffesiynol ar gyfer yr arddangoswyr ar y diwrnod hwn, i'w gadarnhau.
- Rhaid trefnu i ddychwelyd y gwaith erbyn 24 Tachwedd 2024 fan bellaf.

*Os bydd rhaid i'r dyddiadau hyn newid, byddwn yn rhoi gwybod i'r holl artistiaid cyn gynted â phosibl.*

## Sut gallaf wneud cais?

Llenwch ein ffurflen gais ar-lein [yma](https://form.jotform.com/241512511621341).  
<https://form.jotform.com/241512511621341>

## Mae hyn yn cynnwys

- 100 o eiriau yn esbonio pam mae gennych ddiddordeb yn Portal 2023
- Datganiad artist 150 o eiriau
- Hyd at dair delwedd ac/neu ddogfen yn cynnwys dolennau i hyd at dair ffeil fideo (sy'n cael eu lletya'n gyhoeddus ac yn weladwy ar vimeo/youtube ac ati)

# PORTAL 2024

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 8 Gorffennaf 2024

Maint mwyaf y ffeiliau i'w lanlwytho yw 10MB.

Byddwch cystal â chyflwyno eich cais cyn **9am, dydd Llun 8 Gorffennaf 2024**.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â Portal 2024 a'r broses, neu os hoffech drafod eich cais neu syniadau, cysylltwch â Savanna Dumelow yn:

[savanna.dumelow@llantarnamgrange.com](mailto:savanna.dumelow@llantarnamgrange.com)

Rydym yn deall y gall dyddiadau cau fod yn drafferthus ac yn anodd eu cyflawni am resymau y tu hwnt i'n rheolaeth. Os teimlwch y byddech yn hoffi ymgeisio ond, am ba reswm bynnag, ni fyddwch yn gallu cwrdd â'r terfyn amser, cysylltwch â ni a byddem yn hapus i drafod cynllun gennych yn anffurfiol ac yn gyfrinachol.

## Beth yw'r broses?

Ar ôl y dyddiad cau, **dydd Llun 8 Gorffennaf 2024**, bydd staff Llantarnam Grange yn casglu ac yn adolygu'r cynigion gyda chymorth dau ddewiswr allanol annibynnol (enwau i'w cadarnhau).

Bydd yr artistiaid yn cael gwybod beth yw'r penderfyniad erbyn **dydd Mercher 10 Gorffennaf 2024**, a byddwn yn ceisio cynnig adborth gan y panel dethol os gofynnir amdano.

Bydd disgwyl i'r artistiaid ddewiswyd ddarparu gwybodaeth a lluniau yn ymwneud â'u gwaith mewn da bryd, fel y bydd digon o amser gennym i gynhyrchu a churadu'r arddangosfa erbyn y digwyddiad agoriadol ar **ddydd Sadwrn 24 Awst 2024**.

# PORTAL 2024

Terfyn amser ar gyfer cynigion: 9am, 8 Gorffennaf 2024

Ar ôl i'r arddangosfa ddiweddu ar ddydd **Sadwrn 16 Tachwedd 2024**, gofynnwn i'r holl artistiaid ddewiswyd gasglu neu drefnu i ddychwelyd eu gwaith gyda'n Swyddog Arddangosfeydd, heb fod yn hwyrach na **dydd Sadwrn 23 Tachwedd 2024**.

Pob lwc!